# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU A GYNHALIWYD O BELL DROS MICROSOFT TEAMS AR DYDD GWENER, 19 GORFFENNAF 2024 10:00

## Yn Bresennol yn Rhithiol

G Chapman - Cadeirydd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | N Clarke | S J Griffiths | M L Hughes |
| M J Williams | R M Granville | S Easterbrook | R J Smith |

## Aelodau Lleyg - yn Bresennol yn Rhithiol:

A Bagley

B Olorunnisola

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Carys Lord - Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid

## Swyddogion - Yn Mynychu - O Bell:

| | |
|---|---|
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| David Williams | Archwilio Cymru |
| Sara-Jane Byrne | Archwilio Cymru |
| Lucy Herman | Archwilio Cymru |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau/ Swyddog Craffu Dros Dro |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 159. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyn cofnodion cyfarfod 6 Mehefin 2024 fel gwir gofnod manwl gywir.<br><br>Nododd Aelod Lleyg lle bo Aelod wedi tynnu sylw at recriwtio aelod lleyg newydd - a chan bwysleisio'r angen i annog mwy o ferched i ymgeisio - y byddai'n fwy dymunol cyfeirio at yr angen i fod yn ymwybodol ogynhwysiant ac amrywedd wrth wneud penodiadau newydd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

## 160. Hunan-asesiad 2023/24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd sicrhau barn y Pwyllgor ar yr hunan-asesiad drafft ar gyfer 2023/24.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Y dylai bod nodyn eglurhaol lle roedd newid sylweddol wedi'i wneud i farn. Nododd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol y gellid gwneud hynny ac y byddai'n anelu i'w cynnwys yn adroddiad 2024/25.<br>• Y dystiolaeth a ddefnyddiwyd er mwyn cyfiawnhau newid yn y farn o anfoddhaol i anaddas mewn perthynas â gwella canol trefi. Amlinellwyd y dystiolaeth gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.<br>• P'un ai a yw'r Cyngor yn bwriadu gwella ei strategaethau ymgysylltu cymunedol er mwyn sicrhau gwell cyfranogiad ac adborth a pha fesurau fydd yn cael eu rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau bod mewnbwn y Gymuned yn llywio penderfyniadau wrth ddarparu gwasanaeth yn effeithiol.<br>• Y mesurau sydd wedi eu rhoi ar waith er mwyn dilysu cywirdeb a pha mor ddibynnol yw'r data perfformiad sy'n cael ei ddarparu gan bob cyfarwyddiaeth a sut mae mynd i'r afael gyda gwahaniaethau neu ragfarnau posib yn y broses casglu data. Wrth ymateb i hyn, fe wnaeth y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol dynnu sylw at y cynllun gwella rheoli perfformiad a |

| | |
|---|---|
| | luniwyd mewn ymateb i feirniadaeth gan Archwilio Cymru ac a gafodd ei graffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a nododd y gellid ei anfon at Aelodau er gwybodaeth.<br>• Yr angen i wasgaru gwella cyfleusterau chwarae a chyfleoedd i blant.<br>• P'un a fyddai'n bosib cael mynediad i'r data y tu ôl i'r adroddiad. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol bod adroddiad llawer fwy manwl a chyfoethog o ran data yn fod i gael ei ystyried gan COSC, yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf. Bydd adroddiad perfformiad byr i gynnwys yr holl ddyddiadau alldro a tharged yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r hunanasesiad.<br>• Y ffordd mae cwynion yn cael eu cofnodi ac yn cael eu delio â hwy mewn gwahanol systemau, a'r heriau mae hyn yn ei gyflwyno wrth ddarparu trosolwg o'r maes gweithgaredd hwn yn y Cyngor. Cytunodd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol i ychwanegu cyfeiriad penodol at gwynion gwasanaethau cymdeithasol yn yr adroddiad hunan-asesiad.<br>• Gan dynnu ar yr esiampl o annog datblygu tai wedi eu codi eu hunain a safleoedd mewnlenwad er mwyn cynyddu'r ystod o dai yn y cymoedd, roedd problem gyda gwneud ymrwymiadau lle nad oedd unrhyw adnoddau nac arian ar gael i symud ymlaen. Mewn ymateb i hyn, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau mai'r unig ffordd y gallai tai newydd fforddiadwy gael eu codi yn y cymoedd yw drwy ein partneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL). Roedd anhawster ychwanegol wedi codi gan mai dim ond ychydig iawn o ardaloedd datblygu mawr oedd ar ôl yn y cymoedd ar gyfer datblygu tai.<br>• Roedd datblygiad Pont Ffordd Penprysg hyn codi cwestiynau ychwanegol ynghylch cynnwys ymrwymiadau o'r math yma, pan nad oedd yr arian mewn lle (gwnaed cais am o leiaf £25 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin). Roedd hi'n bwysig nad oedd y Cyfarwyddiaethau yn ei gwneud hi'n amhosib iddynt lwyddo drwy roi ymrwymiadau na allent eu cyflawni yn eu lle.<br>• Faint mwy o fanylion sydd ei angen er mwyn deall peth o'r safbwyntiau yn yr adroddiad drafft.<br>• Y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau o'r Pwyllgor dderbyn adborth gan y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol ynghylch y drafodaeth ar yr adroddiad hwn yn COSC ar 25 Gorffennaf.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bu i’r Pwyllgor:<br><br>Adolygu'r hunan-asesiad drafft yn Atodiad 1 a darparu sylwadau, adborth a gwelliannau.<br><br>Ystyried y newidiadau arfaethedig i sgoriau ym mharagraffau 3.8 a 3.9. |

| | |
|---|---|
| | Gwneud cais am i ystyriaeth gael ei roi i drefnu digwyddiad hyfforddiant ynghylch y broses bresennol ar gyfer hunan-asesiad a gweithdy er mwyn mynd drwy'r drafft hunan-asesiad ar gyfer 2024-25 cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor y flwyddyn nesaf. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

## 161. Diweddariad ar y System Dracio Reoleiddiol

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y System Dracio Reoleiddiol a ddiweddarwyd hyd at ddiwedd chwarter 4 o 2023-24.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Lle roedd argymhellion wedi cael eu cau, pa fesurau penodol oedd yn eu lle er mwyn sicrhau bod y newidiadau'n gynaliadwy. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol, gan gyfeirio at y canllawiau i'r cyfarwyddiaethau, bod yn rhaid i ddatrysiadau fod yn rhai hirdymor ac yn gynaliadwy. Roedd adroddiadau o'r math yma yn darparu trosolwg o sut roedd pethau'n esblygu ac yn newid. Yn ogystal, roedd mecanwaith, gan gynnwys proses graffu ac archwilio mewnol, er mwyn archwilio sut roedd gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u cyflawni.<br>• Nododd y Cadeirydd yr hoffai ddeall pam nad oedd atgyfeiriadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymddangos i fod wedi cael eu trosglwyddo i raglen waith y pwyllgorau craffu wrth symud ymlaen.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y pwyntiau crynodeb a'r system dracio reoleiddiol fanwl gan godi pryderon o ran dilyn i fyny, gan gynnwys yr angen i archwilio mater atgyfeiriadau gan y Pwyllgor i'r pwyllgorau Craffu drwy bwyllgor, llythyr neu e-bost cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Medi. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

## 162. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Mae'n ceisio diweddaru Aelodau ar gamau gweithredu dilynol neu wybodaeth bellach y gwnaed cais amdani ar adroddiadau sydd wedi eu hystyried gan Aelodau a/neu y gwnaed cais gan y Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall mewn perthynas ag eitemau agenda blaenorol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Yr angen, ar frys, i gytuno ar ddyddiad a'i drefnu er mwyn i Aelodau dderbyn brîff a hyfforddiant ar agweddau o'u gwaith gan Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS). Mewn ymateb, nododd Pennaeth RIAS ei fod yn gweithio gyda'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid er mwyn dwyn ynghyd weithdy ar gyfer Aelodau. Nid oedd y manylion wedi eu trefnu eto ond byddai'r cynnwys yn ystyrlon i Aelodau a byddai diweddariad gyda'r dyddiad yn cael ei ddarparu cyn gynted ag yr oedd un ar gael.<br>• Ychwanegodd cynrychiolydd o Archwilio Cymru eu bod fel arfer yn trefnu digwyddiad cyfnewid arfer da ochr yn ochr â chyhoeddi adroddiadau, a bod y rhain yn rhoi cyfle i Aelodau ddod i ddeall mwy am y materion a drafodwyd yn yr adroddiadau.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Pwynt Gweithredu gan ddarparu sylwadau arno, fel yr oedd yn briodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

## 163. Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno tri adroddiad gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor: manylion y diweddariad chwarterol ar y Rhaglen Waith hyd at ddiwedd Mehefin 2024, Cynllun Archwilio Manwl 2024 a'r Crynodeb Archwiliad Blynyddol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Yr heriau oedd yn gysylltiedig gyda recriwtio staff mewn llywodraeth leol.<br>• Y cysyniad o fod yn berthnasol ac adnabod cam ddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i ddarllenydd y cyfrifon gael ei gamarwain/chamarwain.<br>• Y gwaith sy'n gysylltiedig gydag Adolygiad Trefniadau Gwneud Penderfyniadau Archwilio Cymru (Mai-Hydref 2024), gan gynnwys y trefniadau ynghylch penderfyniadau oedd wedi eu dirprwyo.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru yn Atodiad A, Atodiad B ac Atodiad C. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

**164. Diweddariad Cynnydd ar Ddewisiadau Sicrwydd Cyfyngedig a Gyhoeddwyd gan Archwiliad Mewnol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno Aelodau gydag adroddiad cynnydd ar gamau a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael â materion gafodd eu hadnabod yn yr adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig a gyhoeddwyd gan Archwilio Mewnol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Y camau a'r amserlen sy'n gysylltiedig gyda'r gwaith yr ymgymerwyd ag o er mwyn mynd i'r afael â'r problemau gafodd eu hadnabod gyda Diogelwch a Mynediad i Adeiladau'r Cyngor.<br>• Y broses ar gyfer dileu cyfrifon e-bost a manylion cyswllt aelodau a swyddogion oedd wedi gadael yr awdurdod. Bydd gwybodaeth bellach ynghylch hyn yn cael ei hanfon at Aelodau dros e-bost.<br>• Pryd roedd yr adroddiad gwreiddiol ar y broblem oedd yn aros ynghylch milltiroedd a deithiwyd yng Ngherbydau'r Cyngor wedi cael ei ysgrifennu. Nododd Pennaeth RIAS y byddai'n trosglwyddo'r wybodaeth honno ymlaen i'r Cadeirydd. Ymhellach, nododd Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau bod yna amgylchiadau penodol iawn oedd i gyfrif am y camau oedd yn dal i fod heb eu gweithredu yn y maes gwaith hwn.<br><br>PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cynnydd ar gamau a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael â materion gafodd eu hadnabod yn yr adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig a gyhoeddwyd gan Archwilio Mewnol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

## 165. Enillion Harbwr Porthcawl 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r Pwyllgor gydag Enillion Harbwr Porthcawl ar gyfer 2023-24 oedd heb ei archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Pam y bu cynnydd sylweddol i £211,000 yng nghyfraniad y Cyngor i Harbwr Porthcawl yn ystod 2023-24. Ymatebodd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd mai canlyniad cynnydd mewn costau cynnal a chadw oedd hyn.<br>• Sut roedd system reoli gyllidebol yn gweithredu a sut roedd dibrisio a gwerth yr ased yn cael ei gyfrifo. Nododd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y byddai'n gwirio sut roedd dibrisio yn cael ei gyfrifo yn yr achos hwn ac yn cadarnhau hynny i'r Aelodau.<br>• Y byddai'r enillion yn elwa o frawddeg bellach yn eglur er bod yr ased yn edrych fel pe bai'n lleihau mewn gwerth, mai addasiad yn y cyfrifon oedd hyn yn hytrach na cholli gwerth gwirioneddol.<br>• P'un ai a oedd cyfleoedd i gynhyrchu mwy o arian.<br>• Bod lefelau staffio yn Harbwr Porthcawl yn cyfateb i 1.5 amser llawn cyfatebol (gyda neb yn gweithio'n llawn amser).<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Cymeradwywyd Enillion Harbwr Porthcawl 2023-24 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dibynnu ar ychwanegu nodyn yn egluro'r addasiad yn y cyfrifon mewn perthynas â gwerth yr ased; a gwnaethant gais, fel mater brys, bod Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3 yn edrych ar weithrediad a pherfformiad, yn arbennig felly mewn perthynas ag ymrwymiadau a rhwymedigaethau'r Cyngor, o ran Harbwr Porthcawl. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

## 166. Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Darparodd yr adroddiad, yn unol â Pharagraff 22.8 o'r Rheolau Gweithdrefn Gyllidol, ddiweddariad o weithgaredd Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Effaith mewn egwyddor, o safbwynt rheolaeth y Trysorlys, pe bai'r Cyngor yn penderfynu buddsoddi mewn tai. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y byddai llawer yn dibynnu ar yr hyn oedd wedi'i gynllunio. O gofio nad yw'r Cyngor yn rheoli tai, yr oedd yn bosib, er enghraifft, rhoi benthyciad i RSL, ac y byddai hynny yn wariant cyfalaf. Gan y byddai hynny'n cynyddu ein hanghenion o ran cyllideb cyfalaf, byddem yn ymgymryd â mwy o ddyled, a byddai angen ei ariannu a'i had-dalu. O ran y costau refeniw oedd yn gysylltiedig gydag ad-dalu dyled, byddem angen ystyried hynny yng nghyd-destun y cyfyngiadau a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae yna gyfyngiad gweithredol, y byddem fel arfer yn gweithredu oddi mewn iddo o ddydd i ddydd, ac mae yna hefyd gyfyngiad uwch nad ydym yn mynd y tu hwnt iddo. Byddai unrhyw newidiadau i hynny angen eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o strategaeth rheoli'r trysorlys a byddai hynny angen ei gymeradwyo gan y Cyngor.<br>• Ein lefelau benthyg cyfredol. Fel ag y mae pethau ar hyn o bryd roedd hyn ychydig dros £100 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn a'r trothwy gweithredol yw £140 miliwn. O ran disgwyliadau cyfredol, y rhagolygon o fewn y rhaglen gyfalaf a'i defnydd o arian wrth gefn sydd wedi'i neilltuo, y cyfanswm tebygol yw £120 miliwn.<br>• Yr effaith ar hylifedd y Cyngor neu iechyd cyllidol cyffredinol y lleihad mewn mantolenni buddsoddiadau.<br>• Benthyciadau LBO (Lender Option Borrower Option) a benthyg gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB).<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bu i'r Pwyllgor:<br><br>• Nodi'r gweithgarwch Rheoli Trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024; a,<br>• Nodi'r Dangosyddion Rheoli Trysorlys gwirioneddol ar gyfer y cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2024 yn |

| | |
|---|---|
| | erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

**167. Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol 2023-24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno Aelodau gyda'r Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol 2023-2024 sy'n crynhoi lle cymerwyd camau mewn perthynas â'r gwrth-dwyll ac mae'n darparu diweddariad ar ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Nifer y bathodynnau glas oedd yn cael eu darparu gan y Cyngor. Nododd yr Uwch Archwiliwr Twyll y byddai'n anfon y ffigyrau diweddaraf at yr aelodau.<br>• Methodoleg Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyfrifo arbedion rhagweladwy.<br>• Y camau a gymerwyd gan y Cyngor i rwystro twyll oedd yn cael ei ailadrodd gan yr un bobl. Nododd yr Uwch Swyddog Twyll fod cofnodion y Cyngor yn cael eu cadw am y cyfnod arferol, sef chwe blynedd plws un fel arfer, o ran unrhyw faterion cyfreithiol oedd yn cael eu dwyn yn erbyn unrhywun am dwyll. Os oedd rhywun yn cael ei adnabod fel person yr ymdriniwyd â hwy yn flaenorol o safbwynt cosb neu gosb ariannol, yna byddai'r Cyngor yn ystyried erlyn yr ail dro gan y byddai hynny'n cael ei hystyried yn drosedd fwy difrifol.<br>• Rôl Swyddogion Gorfodi Dinesig.<br>• Y dull wedi'i dargedu ar gyfer gweithgarwch gorfodi a fabwysiadwyd gan yr Adran Dwyll.<br>• Costau a buddion cysylltiedig cyflogi mwy o bobl yn yr Adran Dwyll, a ph'un ai oedd hyn yn ffordd o gynyddu refeniw i'r Cyngor. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach gyda'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid.<br>• Y dylai'r maes gweithgaredd hwn gael ei graffu gan COSC ac y dylai ei argymhellion gael eu hadrodd amdanynt i'r Cabinet.<br>• Y byddai'r Aelodau yn croesawu'r cyfle i drafod twyll gydag aelod o'r Tîm Twyll yn Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).<br>• Mater twyll o fewn caffael ac wrth weinyddu a gweithredu contractau allanol.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: |

| | |
|---|---|
| | Nododd y Pwyllgor Adroddiad Twyll Corfforaethol Blynyddol 2023-24, y mesurau sydd ar waith, y gwaith sy’n cael ei wneud i atal ac adnabod twyll a chamgymeriad a diweddariad ar y Fenter Twyll Genedlaethol.<br><br>Ymhellach, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei baratoi gan y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid i'r Cadeirydd ei arwyddo, gan gynnwys ASau lleol, ac yn gwahodd cynrychiolydd o Dîm Twyll yr Adran Gwaith a Phensiynau i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

**168. Blaenraglen Waith 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd ceisio sicrhau cymeradwyaeth i'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 a ddiweddarwyd.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau y mater canlynol: Nododd Aelod arall bod y Cabinet wedi gwneud ymrwymiad y byddai adolygiad trylwyr, llinell wrth linell o'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gynnal eleni. Cafodd yr Aelod a wnaeth yr ymholiad gwreiddiol ei annog i ysgrifennu at y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid yn amlinellu ei gynigion ar gyfer yr adolygiad.<br><br>Nododd y Cadeirydd y byddai angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gwneud iawn gyda'r agenda. Byddai'n cymryd y cyfle i drafod hyn gyda'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith wedi ei diweddaru ar gyfer 2024-25, a’i chymeradwyo yn ddibynnol ar ddarparu diweddariad i Aelodau ar yr adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf pan oedd rhagor o wybodaeth ar gael. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

## 169. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 19 Gorffennaf 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:36.